# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 12 Mawrth 2013**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(119)

**Datganiad Y Llywydd**

Tynnodd y Llywydd sylw'r Aelodau at anerchiad Ei Mawrhydi y Frenhines ar Ddiwrnod y Gymanwlad, ddydd Llun 11 Mawrth. Caiff ei gyhoeddi fel rhan o Gofnod y Trafodion.

### 1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd y 12 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

### 2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14.16

### 3. Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Canfod Twyll a Gorfodi) (Cymru)

Dechreuodd yr eitem am 14.29

**NDM5184 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Darganfod Twyll a Gorfodi) (Cymru) 2013 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Chwefror 2013.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

### 4. Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd: Adroddiad Guilford ar y Trefniadau ar gyfer Gweithredu Rhaglenni Ewropeaidd 2014-2020

Dechreuodd yr eitem am 14.34

### 5. Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau: Rhagor o Brentisiaethau yng Nghymru

Dechreuodd yr eitem am 15.09

### 6. Datganiad gan y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth: Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid: Fframwaith Adfywio Newydd i Gymru

Dechreuodd yr eitem am 15.48

### 7. Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd: Adroddiad Diweddaru ar Hwyluso'r Drefn - Ehangu Busnes y Fferm

Dechreuodd yr eitem am 16.34

### 8. Gorchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) 2013

Dechreuodd yr eitem am 17.11

**NDM5183 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o Orchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) 2013 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Chwefror 2013.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

### 9. Dadl: Ansawdd yn GIG Cymru - sicrhau dysgu o Adroddiad Francis

Dechreuodd yr eitem am 17.22

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

**NDM5182 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi'r argymhellion a wnaed yn adroddiad terfynol yr Ymchwiliad Cyhoeddus i Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Canol Swydd Stafford ac y bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio Ymchwiliad Francis i helpu i ddod o hyd i ffordd well eto o ddarparu gofal diogel a thosturiol yng Nghymru.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu popeth ar ôl 'Swydd Stafford'.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 18 | 0 | 29 | 47 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 – Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi'r pryderon difrifol a gododd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn dilyn yr arolygiadau urddas a gofal hanfodol a gynhaliwyd yn ein hysbytai.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 22 | 0 | 25 | 47 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 – Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

(a) gweithredu argymhellion Adroddiad Francis sy'n berthnasol i'n GIG ni;

(b) ystyried creu gwefan "fyYsbytylleol" tebyg i wefan "fyYsgolleol" i sicrhau bod pob ysbyty'n darparu gwybodaeth hygyrch a thryloyw am berfformiad; ac

(c) cyflwyno deddfwriaeth i wneud methiant i ddarparu adroddiad cywir am yr amgylchiadau a arweiniodd at farwolaeth claf yn drosedd.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 22 | 0 | 25 | 47 |

**Gwrthodwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 – William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod y potensial i bwysau ariannol yn y GIG yng Nghymru danseilio'r awydd i ddarparu gofal diogel a thosturiol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 15 | 0 | 32 | 47 |

**Gwrthodwyd gwelliant 4.**

**Gwelliant 5 – William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi'r pryderon a fynegwyd yn adroddiad Ymchwiliad Cyhoeddus Ymddiriedolaeth Sefydliad GIG Canol Swydd Stafford o ran lefelau staffio, ac

a) yn gresynu bod pryderon ynghylch cywirdeb a chysondeb data ar lefelau staffio hefyd wedi'u canfod gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn ei adroddiad diweddar ar Wasanaethau Mamolaeth yng Nghymru (Chwefror 2013);

b) yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi canllawiau i fyrddau iechyd lleol i sicrhau nad yw staff sy'n absennol am gyfnod hir, neu wedi eu hatal o'u gwaith, yn cael eu cynnwys mewn rotas staffio yn y dyfodol oni ddisgwylir iddynt ddychwelyd i'w gwaith yn fuan iawn.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 22 | 0 | 25 | 47 |

**Gwrthodwyd gwelliant 5.**

**Gwelliant 6 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Rhoi pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad llawn o Hanfodion Gofal 2003 i sicrhau bod y safonau'n parhau i adlewyrchu arfer gorau o ran gofal o fewn GIG Cymru fel y'i nodwyd gan y rhai sydd angen gofal, gofalwyr a staff.'

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 6:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 47 | 0 | 0 | 47 |

**Derbyniwyd gwelliant 6.**

**Gwelliant 7 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Rhoi pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddiwygio Rheoliadau'r Gwasanaethau Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion, ac Iawn) (Cymru) 2011 i gynnwys gofyniad i'r hyn a ddysgir o ganlyniad i gwynion gael ei nodi, ei ledaenu a'i roi ar waith yn effeithiol gan roi gwybod i'r achwynydd ac i'r cyhoedd.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 7:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 22 | 0 | 25 | 47 |

**Gwrthodwyd gwelliant 7.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM5182 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi'r argymhellion a wnaed yn adroddiad terfynol yr Ymchwiliad Cyhoeddus i Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Canol Swydd Stafford ac y bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio Ymchwiliad Francis i helpu i ddod o hyd i ffordd well eto o ddarparu gofal diogel a thosturiol yng Nghymru.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad llawn o Hanfodion Gofal 2003 i sicrhau bod y safonau'n parhau i adlewyrchu arfer gorau o ran gofal o fewn GIG Cymru fel y'i nodwyd gan y rhai sydd angen gofal, gofalwyr a staff.'

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 47 | 0 | 0 | 47 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio**

**Cyfnod Pleidleisio**

Dechreuodd yr eitem am 18.03

Daeth y cyfarfod i ben am 18:06

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mercher, 13 Mawrth 2013**